

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm
Taf: Ty Llidiard, Plant a'r
Glasoed**

12 Mai 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copiâu o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau.....	6
	Safonau Craidd.....	6
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	11
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau, a hynny drwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Dŷ Llidiard, Pen-y-bont ar Ogwr, ar 12 Mai 2015, er mwyn monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yw Tŷ Llidiard sy'n darparu gofal preswyl i bobl ifanc dan ddeunaw oed. Ceir dwy ward yn Nhŷ Llidiard, sef Ward Seren ac ynddi 14 gwely a Ward Enfys ac ynddi bum gwely. Er bod cyfanswm o 19 gwely yn yr uned, fe'i comisiynwyd ar gyfer 15 gwely yn unig. Agorwyd Tŷ Llidiard ym mis Gorffennaf 2011.

Yn ystod y dydd, gwnaethom ymweld â'r uned, gan adolygu cofnodion cleifion, siarad â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un Adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a adeiladwyd i'r diben, yw Tŷ Llidiard, ac roedd naws ddigynnwrf a hamddenol yno drwy gydol ein hymweliad.

Roedd yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar y cyfan, ond roedd dŵr yn gollwng yn y neuadd chwaraeon, sydd wedi creu difrod sylweddol, ac mae angen ei drwsio.

Roedd digon o ddodrefn yn Nhŷ Llidiard ar gyfer y grŵp o gleifion. Fodd bynnag, roedd yr uned yn disgwyl i ddodrefn gael eu lleoli'n briodol ar Ward Seren.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd y cleifion hefyd fod y staff yn barod eu cymwynas, ac wedi inni weld dogfennau'r cleifion, roedd yn glir bod y cleifion, teuluoedd a gofalwyr yn cyfrannu at ofal cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol a gweld ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Fodd bynnag, roedd nifer o agweddau ar gadw cofnodion y gellid eu gwella yn unol â Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a adeiladwyd i'r diben, yw Tŷ Llidiard. Roedd naws ddigynnwrf a hamddenol yno drwy gydol ein harolygiad, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty a'u bod yn cael gofal da.

Amgylchedd y ward

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y mynediad wedi'i ddiogelu gan glo â chod rhifau i rwystro pobl rhag cael mynediad heb awdurdod. Yn seiliedig ar benderfyniad clinigol i atal nifer o'r cleifion dan gadwad rhag gadael y ward heb ganiatâd, roedd rhaid cloi'r drws o'r tu mewn, ac mae hyn wedi'i gofnodi yng nghofnod y drws clo. Mae'r bwrdd iechyd yn monitro pa mor aml mae hyn yn digwydd. Mae'r ward yn arddangos gwybodaeth sy'n esbonio i'r cleifion sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Pan nad yw'r drws ar glo, gall y cleifion adael y ward gan ddefnyddio'r botwm i ryddhau'r clo.

Ar ddiwrnod ein harolygiad dirybudd, roedd yr uned i'w gweld yn lân, heb annibendod ar y cyfan, a heb aroglau amhleserus neu glinigol drwyddi draw. Roedd derbynfa Tŷ Llidiard yn groesawgar ac ynddi 'goeden gadael gofal', sef llun o goeden a negeseuon o gefnogaeth ar ei changhennau ar gyfer cleifion newydd, gan gleifion a gafodd gofal ynghynt yn Nhŷ Llidiard.

Roedd manau cymunedol Ward Enfys wedi cael eu dodrefnu'n dda ac ynddynt ddigon o ddodrefn, addurniadau a gosodiadau a oedd yn briodol i'r grŵp cleifion. Fodd bynnag, nid oedd dodrefn wedi cael eu gosod mewn manau priodol yn Ward Seren, er bod y ward wedi derbyn dodrefn a oedd yn fwy addas ar gyfer ymddygiad posibl y cleifion. O achos eu pwysau trwm, bydd gofyn i'r Adran Ystadau symud y dodrefn.

Roedd gan Dŷ Llidiard neuadd chwaraeon at ddefnydd y cleifion, ond roedd dŵr yn gollwng yno ac wedi creu difrod sylweddol, ac mae angen ei drwsio.

Roedd mynediad uniongyrchol gan gleifion o'r manau cymunedol i erddi caeedig, a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dywedwyd wrthym fod y ward yn darparu gweithgareddau yn yr ardd pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn ar Ward Seren yn cael eu lleoli'n briodol ar y ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y darn lle mae dŵr yn gollwng yn cael ei drwsio, a bod y difrod cysylltiedig yn cael ei gyweirio.

Diogelwch

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Nhŷ Llidiard. Roedd modd i staff yr ysbyty gael mynediad at bolisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward, a thrwy gyfrwng system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Nid oedd rhwymyn ar addurniadau a gosodiadau'r ysbyty ym manau'r cleifion trwyddynt draw. Dywedodd y staff eu bod yn cynyddu'r lefelau arsylwi, os oedd angen, i adlewyrchu'r risg y gallai ymddygiad unrhyw glaf ei achosi.

Roedd yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wedi derbyn Hyfforddiant Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol. Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn dargyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgar.

Byddai cleifion yn cael eu derbyn a'u gofalu ar Ward Enfys, ond os oedd angen rhagor o gymorth arnynt, yna byddai'r cleifion yn derbyn gofal ar Ward Seren. Pan fydd cleifion yn derbyn gofal ar Ward Seren, byddant yn cael eu hannog i wneud gweithgareddau a threulio amserau bwyd ar Ward Enfys, pan fydd hynny'n bosibl. Roedd ystafell ymdawelu neilltuedig ar Ward Seren a ddefnyddiwyd yn unig ar ôl rhoi cynnig ar bob dull arall o ymdawelu. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod yr ystafell ymdawelu wedi'i defnyddio ar un achlysur, a hynny am gyfnod byr iawn, gan lynu wrth bolisi neilltuo'r bwrdd iechyd.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd y staff yn cario larymau personol. Fe'n hysbyswyd bod larymau ar gael a bod y staff yn derbyn larymau os penderfynir bod risg clinigol.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd staff craidd yr ysbyty yn cynnwys dwy nyrs gofrestrdig a phedwar cynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, a dwy nyrs gofrestrdig a thri chynorthwydd nyrsio yn ystod y nos. Cynyddwyd niferoedd y staff pan oedd angen er mwyn diwallu anghenion y grŵp cleifion.

Ar adeg ein harolygiad, roedd y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer tair swydd nyrsio Band 5. Fe'n hysbyswyd bod nifer o gleifion yr ysbyty wedi bod ynghlwm wrth broses recriwtio'r bwrdd iechyd ar gyfer rhai o'r swyddi yn Nhŷ Llidiard. Nododd staff fod hon yn fenter gadarnhaol.

Pan fydd angen, mae Tŷ Llidiard yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd neu, os nad yw hynny'n bosibl, defnyddiant staff asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod y ward yn ceisio yn gyntaf i ddefnyddio staff banc neu asiantaeth sydd â gwybodaeth flaenorol o'r grŵp cleifion.

Yn Nhŷ Llidiard, rhoddir mewnbwn therapiwtig gan seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, therapydd celf, seicotherapydd, a therapydd teulu. Roedd dau feddyg ymgynghorol llawn amser; cynhelid cylchdaith ward amlddisgyblaethol bob wythnos.

Dywedwyd wrthym fod mynediad y staff i hyfforddiant gorfodol, a'u cyfraddau cwblhau, yn dda, ond roedd staff o'r farn y byddai'n fuddiol iddynt, wrth ofalu am y grŵp cleifion, gael hyfforddiant ar therapi ymddygiad dialectig (DBT).

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hyfforddiant ar therapi ymddygiad dialectig (DBT) i staff perthnasol yn Nhŷ Llidiard.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan gleifion ystafelloedd gwely unigol gyda chyfleusterau en suite a chawodydd. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd gwely i'r cleifion storio'u heiddo, ac roeddent yn gallu personoleiddio'u hystafell eu hunain. Roedd enw preswlydd pob ystafell wely ar ochr allan drws yr ystafell. Roedd cleifion yn gallu cloi drws eu hystafell wely, ond roedd y staff yn gallu ei agor os oedd angen.

Roedd staff Tŷ Llidiard yn gallu gofyn am gyfarpar arbenigol os oedd cleifion angen cymorth gyda gofal personol.

Roeddem yn falch o weld bod cyfleusterau golchi dillad ar y safle, ac roedd y cleifion yn gallu golchi eu dillad gyda chymorth y staff, neu fel arall byddai'r staff yn gwneud hyn ar ran y cleifion. Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro hyn er mwyn sicrhau nad yw'r amser mae'r staff nyrsio'n ei dreulio'n golchi dillad cleifion yn cael ei dynnu oddi ar ofal cleifion.

Roedd hawl gan gleifion i gael mynediad at eu ffonau symudol yn y manau cymunedol yn ystod y nosweithiau, a phan oeddent yn absennol trwy ganiatâd yn y gymuned.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgaf a pharchus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn barod eu cymwynas a'u bod yn trin y cleifion yn garedig.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Mae Tŷ Llidiard yn cyfrannu tuag at addysg cleifion sydd o oedran ysgol. Roedd un pennaeth yno ac un athro cymorth; ceid mewnbwn hefyd yn Nhŷ Llidiard gan athrawon rheolaidd eraill, a oedd yn rhoi gwersi ar bynciau unigol.

Mae gan bob claf gynllun gweithgareddau a therapi unigol y tu allan i oriau ysgol, ac roedd cleifion yn gallu dewis pa weithgareddau a therapïau yr oeddent am eu gwneud bob dydd.

Er mwyn gwneud gweithgareddau cymdeithasol yn Nhŷ Llidiard, gallai'r cleifion ddefnyddio ystafell gemau ac ystafell gerddoriaeth, ynghyd ag ystafell sinema a ddefnyddid ar gyfer nosweithiau ffilm cymunedol a drefnwyd o flaen llaw.

Roedd cegin therapi galwedigaethol yn Nhŷ Llidiard y gallai cleifion ei defnyddio ar gyfer sesiynau unigol neu grŵp.

Mae gan yr ysbyty gerbyd wedi'i neilltuo hefyd, er mwyn i staff fynd â chleifion i'r siopau lleol ac ar wibdeithiau cymunedol ymhellach i ffwrdd. Roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty gyda'u teulu neu ar eu pen eu hunain, os oedd hynny'n briodol.

Gofal iechyd cyffredinol

Aseswyd iechyd corfforol a lles cleifion yn fanwl wrth eu derbyn i Dŷ Llidiard, a monitryd hynny'n rheolaidd gan feddyg.

Roedd cleifion a oedd angen rhaglen o ofal iechyd corfforol yn meddu ar gynlluniau gofal cynhwysfawr a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion penodol, ac roedd y cynlluniau hyn yn aml yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o wasanaethau gofal iechyd eraill.

Gwnaethom archwilio cynlluniau gofal cleifion, asesiadau risg, a chofnodion eraill. Pan fyddai cleifion yn cael eu diagnosio ag anhwylderau bwyta ac anghenion nodedig o gymhleth, roedd hi'n amlwg bod eu dogfennaeth yn dynodi'r anghenion unigol yr oedd y tîm amlddisgyblaethol, ar y cyd â gwasanaethau meddygol arbenigol, yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Yn gyffredinol, mae cleifion yn parhau i fod yn gofrestredig gyda'u gwasanaethau iechyd corfforol eu hunain, megis meddygon teulu a deintyddion. Serch hynny, gellir cyfeirio cleifion at ddeintydd cymunedol yn lleol.

Mae'r cleifion yn defnyddio trinwyr gwallt a barbwyr yn y gymuned.

Bwyd a maeth

Roedd cyfleusterau arlwyo priodol yn yr ysbyty, ac roedd cegin yr ysbyty yn darparu prydau bwyd o'r cyflenwad o fwydydd oer i'w coginio; mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty.

Roedd yr ysbyty'n derbyn mewnbwn gan ddietegydd a chan wasanaeth therapi iaith a lleferydd. Roedd bwydlenni dietegol arbenigol ar waith ar gyfer cleifion oedd ag anhwylderau bwyta, a oedd yn adlewyrchu gwybodaeth maeth a oedd yn gysylltiedig â gweithgareddau'r claf unigol ar y diwrnod hwnnw. Pan oedd angen, roedd staff yn rhoi cymorth un i un i gleifion yn ystod amserau bwyd.

Roedd gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i amserau bwyd, ac roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn gyfleus iddynt.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Roedd 14 o gleifion yn derbyn gofal yn Nhŷ Llidiard, a phob un ohonynt o dan ddeunaw oed. Roedd nifer o gleifion wedi'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar adeg ein harolygiad.

Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol a gweld ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd y gellid eu gwella ynghylch cadw cofnodion, yn unol ag arfer da.

Cadw cleifion

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth statudol ar gyfer pob un o'r cleifion a gadwyd o dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer asesiad*¹, neu Adran 3, *Derbyn ar gyfer triniaeth*². Roedd o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo o dan Adran 12³, ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cyfarfod â'r claf o'r blaen⁴.

Ym mhob achos, roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal. Ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn dynodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn Nhŷ Llidiard.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw dan Adran 2 ac Adran 3, roedd y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy⁵ ar gyfer pob achos wedi nodi a chysylltu â pherthnasau agosaf y claf⁶. Fodd bynnag, nid oedd pob copi o adroddiadau'r gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi'i gadw gyda dogfennau cadw'r claf unigol, fel sy'n gyffredin.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y claf.

¹ Adran 2 – wedi'i dderbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

² Adran 3 – wedi'i dderbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

³ Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel un sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae'r byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

⁴ Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol (Adran 12(2) o'r Ddeddf).

⁵ Gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r Ddeddf, a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.

⁶ Person a ddiffinnir gan Adran 26 y Ddeddf ac sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf mewn perthynas â chlaf y mae'n berthynas agosaf iddo.

Adran 5 – Cais mewn perthynas â chlaf sydd eisoes yn yr ysbyty⁷

Pan oedd cleifion wedi'u cadw'n wreiddiol dan Adran 5(4)⁸ o'r Ddeddf, roedd hi'n amlwg bod y claf yn glaf preswyl ar yr adeg honno, a gweithredwyd Adran 5(2)⁹ o fewn y chwe awr.

Pan oedd cleifion wedi'u cadw'n wreiddiol dan Adran 5(2) o'r Ddeddf, roedd hi'n amlwg bod pob claf yn glaf preswyl ar yr adeg honno. Ym mhob achos, cafwyd ail argymhelliad meddygol ymhen y terfyn o 72 awr i gadw'r claf dan Adran 2 neu Adran 3 y Ddeddf.

Wrth adolygu nodiadau unigol cleifion, roedd hi'n amlwg pam roedd angen defnyddio Adran 5(2) neu Adran 5(4) ar yr adeg honno, ac roedd y newid i statws cyfreithiol y claf wedi'i gofnodi.

Nodwyd mewn un achos bod rhaid i Adran 5(2) gael ei gweithredu, oherwydd roedd cyfnod Adran 2 wedi dod i ben ac nid oedd staff wedi gallu trefnu i weithredu Adran 3 o fewn y terfyn amser gofynnol. Nodwyd bod hwn yn achos eithriadol a bod rhaid gweithredu Adran 5(2) i atal y claf rhag gadael yr ysbyty.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dyddiadau pan fydd cyfnodau cadw yn dod i ben yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod dogfennaeth statudol yn cael ei chwblhau o fewn y terfynau amser.

Cadw parhaus

Pan fu claf yn destun adnewyddu cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

Trosglwyddiadau rhwng ysbytai

Lle roedd cleifion wedi'u trosglwyddo rhwng ysbytai dan Adran 19 o'r Ddeddf, Rheoliadau ar drosglwyddo cleifion, nodwyd bod yr holl ddogfennaeth statudol wedi cael ei chwblhau yn llawn ac o fewn yr amserlenni gofynnol.

⁷ Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion preswyl ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir penderfynu a ddylid gwneud cais i'w cadw ai peidio

⁸ Lle mae Adran 5 yn cael ei chymhwyso gan nyrs

⁹ Lle mae Adran 5 yn cael ei chymhwyso gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu glinigydd cymeradwy

Apelio yn erbyn cadw claf

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau i apelio yn erbyn cael eu cadw. Roedd hi'n amlwg pe byddai'r cleifion am apelio i'r Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl y byddai'r broses yn cael ei dilyn.

Rhan 132 – darparu gwybodaeth

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am eu cadw ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio'n rheolaidd i roi'r wybodaeth i'r cleifion.

Mae cynrychiolwyr o'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn mynychu Tŷ Llidiard.

Cydsynio i driniaeth

Roedd darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58¹⁰ y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir yn achos cleifion a oedd yn ddarostyngedig iddynt. Roedd copïau o'r tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf, pan fo hynny'n berthnasol.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb¹¹ dan Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, a nodwyd terfyn amser neu ddyddiad adolygu. Nid oedd yr holl ffurflenni a oedd yn awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben wedi'u marcio'n glir fel rhai nad oedd bellach yn ddilys. Mae'n arfer da i sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben yn cael eu marcio fel rhai sydd bellach yn annilys.

Yn cyd-fynd â'r ffurflenni awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 oedd asesiadau risg a oedd yn nodi'r peryglon, y tebygrwydd o rywbeth yn digwydd, a'r effaith.

¹⁰ Ffurff ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, ac mae'r rheolau arbennig yn Adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi. Golyga hyn roi meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sy'n cael eu cadw yn dilyn cyfnod cychwynnol o dri mis

¹¹ Caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty sy'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n glir fel un sydd bellach yn annilys.

Cleifion cyfyngedig

Nid oedd unrhyw gleifion wedi'u cadw dan Ran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddeddfryd.*

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nhŷ Lliardiard yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar gynllun gwella'r bwrdd iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Atodiad A

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl:

Bwrdd Iechyd:

Lleoliad:

Dyddiad yr arolygiad:

Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Tŷ Llidiard

12 Mai 2015

Rhif y Duda len	Gofyniad / Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Safonau Craidd				
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn ar Ward Seren yn cael eu lleoli'n briodol ar y ward.	Mae'r holl ddodrefn bellach wedi cael eu lleoli'n gywir.	Rheolwr Ardal	Cwblhawyd
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y darn lle mae dŵr yn gollwng yn cael ei drwsio, a bod y difrod cysylltiedig yn cael ei gyweirio.	Mynegwyd y mater droeon wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac mewn cyfarfod diweddar gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac adran ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi trwsio'r	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau Rheolwr Ardal	Medi 2015

		gollyngiad dŵr, ond bellach mae angen adnewyddu'r llawr a gwneud gwaith arall. Mae Ystadau wrthi'n mynd i'r afael â'r materion.		
8	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hyfforddiant ar therapi ymddygiad dialectig (DBT) i staff perthnasol yn Nhŷ Lliidiard.	Bydd y seicolegydd a benodwyd yn ddiweddar yn arwain ar roi hyfforddiant i staff perthnasol ar ddulliau o ddefnyddio therapi ymddygiad dialectig yn Nhŷ Lliidiard. Bydd y seicolegydd yn dechrau yn y swydd ar 13 Gorffennaf 2015.	Seicolegydd	Rhagfyr 2015
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl				
10	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y cleifion.	Mae nyrsys Band 6 yn gyfrifol am archwilio nodiadau achos y nyrsys hynny maen nhw'n uwch-nyrs staff ar eu cyfer, a hynny bob wythnos. Cynnwys hyn yn archwiliad wythnosol yr uned o nodiadau achos.	Rheolwr y ward Uwch-nyrsys staff Staff nyrsio cymwys	Cwblhawyd
11	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dyddiadau pan fydd cyfnodau cadw yn dod i ben yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod dogfennaeth statudol yn cael ei chwblhau o fewn y terfynau amser.	Mae nyrsys Band 6 yn gyfrifol am archwilio nodiadau achos y nyrsys hynny maen nhw'n uwch-nyrs staff ar eu cyfer, a hynny bob wythnos. Cynnwys hyn yn archwiliad wythnosol yr uned o nodiadau achos a'u nodi yn yr adroddiadau wythnosol ar gylchdaith y ward.	Rheolwr y ward Uwch-nyrsys staff Staff nyrsio cymwys	Cwblhawyd

12	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n glir fel un sydd bellach yn annilys.	Mae nyrsys Band 6 yn gyfrifol am archwilio nodiadau achos y nyrsys hynny maen nhw'n uwch-nyrs staff ar eu cyfer, a hynny bob wythnos. Cynnwys hyn yn archwiliad wythnosol yr uned o nodiadau achos.	Rheolwr y ward Uwch-nyrsys staff Staff nyrsio cymwys	Cwblhawyd
-----------	--	--	---	-----------